Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 9 Medi, 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.15 pm

Presennol: Y Maer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Chris Parish, y Cyng Edward Thomas, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Julia Jones, y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Ros Bellamy,

Mr Roger Phillips (Clec y Dref)
Mr Christopher Plummer, y Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, y Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Y Cyng Hugh Towns, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Richard Wallace.

Cof 140 / Medi / 09 Cyfrifon i'w talu.

WCVA (Cyflogau Gorffennaf 2009)		£ 34.79
WCVA (Gweinyddiaeth Awst 2009)		£ 34.79
Morgan & Morgan (ffeiliau crog)	£ 13.80	
Lyn Llewellyn (Archwiliad Mewnol)		£ 165.00
Terry Davies (anfonebau 1612-1616; 1623)		£ 518.75
Roger Phillips (tâl post)		£ 37.09
Orchardweb (adnewyddu'r we a'r parth)		£ 193.19
Really Welsh (daffodiliau)		£ 40.00

Derbyniwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Cytunwyd na ddylid talu anfoneb gan SA Marketing am £402.50 ar gyfer dosbarthu taflenni llwybrau'r dref. Cynigwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater y dylai'r Clerc gysylltu â'r cwmni i ofyn iddynt am restr o'r adeiladau lle arddangoswyd y taflenni cyn y byddai'r anfoneb yn cael ei hystyried. Roedd pawb o blaid.

Cof 141 / Medi /09 Incwm a Dderbyniwyd yng Ngorffennaf/Awst 2009

Praesept CSC	£ 15,891.33
Arian parod / Sieciau (Derbynebau Cinio'r Maer)	£ 182.00
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed	£ 3,140.75

Cof 142 / Medi / 09 Balansau'r Cyfrifon

Cafodd yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor ei gofnodi a'i **Dderbyn**:

CYFRIF CYFREDOL CTLl ar (31.8.09)	£ 21,784.74
CYFRIF CADW CTLl ar (30.6.09)	£ 37,153.14
Cyfrif Treuliau'r Maer CTLl (20.8.09)	£ 888.82

Cynigwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid trosglwyddo £10,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif cadw. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng Ros Bellamy y dylid talu gweddill Cyllideb y Maer i Gyfrif Treuliau'r Maer. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 143 / Medi / 09 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad Gwirio Chwarterol.
   Dywedodd y Cyng Christopher Parish fod y gwiriadau ar gyfer Ebrill, Mai a Mehefin wedi cael eu cynnal mewn dull boddhaol.
2. Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
   Roedd y Swyddog Cyllid wedi llunio Rhagolwg Cyllideb 3 blynedd. Cytunodd y cynghorwyr i gynyddu'r swm a glustnodwyd ar gyfer cynnal a chadw Neuadd y Sir o £10,000 i £16,000. Byddai'r cynnydd o £6,000 i'w weld yn y newidiadau canlynol -
   Gostyngwyd y gyllideb ar gyfer Rhandir Heol Cilgant o £7,750 i £2,750
   Gostyngwyd y gyllideb ar gyfer Llwybr treftadaeth y Dref o £ 1,459 i £ 459.
3. Gofynnodd y Maer am ganiatâd i dalu ffi o £300 i'r band *Memphis 7* i berfformio yn y digwyddiad a drefnir gan y Cyngor, ddydd Sadwrn Medi 10, ym Mharc Penlan. Cynigwyd derbyn hyn gan y Cyng Julia Jones. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 144 / Medi / 09 Gohebiaeth sy'n Gysylltiedig â Chyllid

1. Llythyr oddi wrth Lisa Williams, Gweinyddwr cynnal a chadw daear CSC, yn dweud y byddai CSC yn derbyn hanner taliad gan y Cyngor o £2,250 yn 2009-10 a hanner taliad o £2,250 yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn gyfraniad y Cyngor tuag at adfer gatiau hanesyddol parc Penlan. Cynigodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid argymell hyn i'r Cyngor Llawn. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
   Cynigodd y Cyng Edward Thomas y dylid cymryd y swm hwn o gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
2. D.Pearce, Swyddog Llwybrau troed CSC yn gofyn i'r cyngor beidio â defnyddio contractwyr preifat mwyach i gynnal a chadw ei lwybrau troed, gan y byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan weithwyr CSC. Cynigwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Clerc roi gwybod i CSC y bydd y contractwr, Mr Gwyn, yn cyflawni'r gwaith cynnal a chadw eleni gan ei fod wedi derbyn contract blynyddol gan y Cyngor. Roedd pawb o blaid.
3. Gwahoddwyd y Maer gan ysgol Tregib i gyflwyno'r Gwobrau Cymunedol yn y noson Wobrwyo Flynyddol ar Fedi 14.
   Cynigwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylid dyfarnu £60 i Siân Williams, yn enillydd unigol a £300 i Grŵp *Action Aid* Blwyddyn 12 ar gyfer y wobr grŵp. Byddai'r Cyngor yn talu am y tystysgrifau a'r ysgythrad angenrheidiol. Roedd pawb o blaid.

Cof 145 /Medi / 09 Agweddau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol.

Roedd y Swyddog Technegol wedi derbyn dyfynbris gan Lloyds am £718 i brofi'r goleuadau Nadolig. Cynigodd y Cyng Colin Jenkins y dylid derbyn hyn. Eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
Darparodd Mr Davies restr o ddyfynbrisiau a dderbyniwyd gan gontractwyr amrywiol i wneud gwaith cynnal a chadw yn Neuadd y Sir. Roedd y rhain fel a ganlyn:
Bricio awyrell - £45
Darparu goleufâu system larwm - £335
Gosod uned boeler newydd - £ 500
Atgyweirio'r ffenestr do - 731.10
Atgyweirio lleithder yn yr islawr - £ 440
Rendro wal y gorllewin - £950
Argymhellodd y Cyng Edward Thomas y dylid derbyn y rhain. Eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 146/ Gorffennaf / 09 Eitemau o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran B(4)(B) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Byddai'r is-grwpiau goleuadau Nadolig a Thân gwyllt yn cwrdd ddydd Mawrth Medi 15 am 6.30pm yn Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm